# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 20 GORFFENNAF 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Cole | P Lloyd |
| P B Smith | C Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Bignall | Rheolwr yr Uned Gwasanaethau Coed |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Whettleton | Swyddog Adrannol Rheoli Gwastraff |
| Frances Williams | Arweinydd Tîm Gorfodi, Tipio Anghyfreithlon a Sbwriel |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Doyle, P M Matthews a/ac T M White

16 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

17 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.

18 **ADOLYGIAD O DIPIO ANGHYFREITHLON.**

Rhoddodd Ian Whettleton, Rheolwr Adrannol Rheoli Gwastraff a Fran Williams, Arweinydd Tîm Gorfodi, Tipio Anghyfreithlon a Sbwriel yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynghylch yr adolygiad o dipio anghyfreithlon.

Trafododd y pwyllgor y camau gweithredu ffurfiol amrywiol y gellid eu dilyn yn ogystal â materion deddfwriaethol a'r weithdrefn ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat.

**PENDERFYNWYD** darparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer y cyfarfod nesaf:

1) Rhestr o nifer yr achosion a dderbyniwyd a sawl erlyniad a gafwyd;

2) Sampl o 5-6 achos gwahanol yn amlinellu sut yr ymdriniwyd â hwy.

## 19 **POLISI COED.**

Cyflwynodd Martin Bignall, Rheolwr Uned Gwasanaethau Coed y Polisi Gweithredol presennol ar gyfer Rheoli Coed yn y Gwasanaeth Parciau.

Esboniodd nad oedd gan yr awdurdod Bolisi Coed ffurfiol ar hyn o bryd; fodd bynnag, lluniwyd y Polisi Gweithredol presennol gan swyddogion.

Cynhaliwyd Gweithgor Craffu Cadw Coed a chyflwynwyd 9 argymhelliad. Un o'r argymhellion oedd datblygu Polisi Coed ar gyfer y cyngor cyfan a byddai'r pwyllgor hwn bellach yn ei oruchwylio. Nododd y swyddog y byddai Polisi Coed ffurfiol yn gofyn am gytundeb amrywiaeth o adrannau gwahanol, megis Cynllunio a Chefn Gwlad.

Eglurodd mai ein prif amcan fel perchnogion coed yw bod ein coed yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u bod mor ddiogel ag sy'n ymarferol bosib. Amlinellodd fanylion y drefn archwilio a bu'r aelodau'n trafod y meini prawf ar gyfer tocio coed.

Nododd y swyddog mai'r bwriad fyddai symud tuag at wasanaeth mwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol fel sydd ar hyn o bryd. Byddai polisi coed ffurfiol o fudd gan y byddai ar gael yn gyhoeddus ac yn amlinellu'r hyn y byddai'r awdurdod yn ei wneud a'r hyn na fyddai'n ei wneud (fel yr amlinellir yn adran 6, 7 ac 8 y ddogfen bresennol).

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei adroddiad ac am esbonio'r broses.

**PENDERFYNWYD** y byddai Rheolwr yr Uned Gwasanaethau Coed yn darparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer y cyfarfod a drefnir ar gyfer 21 Medi 2016:

1) Llunio cyflwyniad ffurfiol i'r strategaeth;
2) Rhestr o goed gyda Gorchmynion Cadw Coed (GCC) ar dir y cyngor;
3) Y fethodoleg a ddefnyddir i osod GCC ar goed a gaiff ei chynnwys yn y Polisi Coed.

## 20 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r cynllun gwaith yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

1) Tynnu'r Cynllun Prawf Bag Ailgylchu Pinc o'r cynllun gwaith;
2) Ail ymweliad â Threforys i'w gynnal rhywbryd rhwng y 2 gyfarfod nesaf sydd wedi'u trefnu ar gyfer 17 Awst 2016 ac 21 Medi 2016.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.59 pm

**CADEIRYDD**